OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 870 (Cy. 117)

PRIFFYRDD, CYMRU

Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Offeryn Cadarnhau hwn yn cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011, a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ar 25 Awst 2011. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer adeiladu pont dros aber Afon Clwyd yn Harbwr y Foryd, Y Rhyl.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 870 (Cy. 117)

PRIFFYRDD, CYMRU

Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 2012

Gwnaed *15 Mawrth 2012*

Yn dod i rym *28 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980[(1)].

Enw

1. Enw'r offeryn hwn yw Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 2012.Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu De Cymru yn unol â gofynion paragraffau 8(3) o Atodlen 8 a 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Cadarnhau'r Cynllun

2. Mae Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cynllun") drwy hyn wedi ei gadarnhau heb addasiadau.

Y Cynllun

3. Mae'r Cynllun fel y'i cadarnhawyd wedi ei osod yn yr Atodlen i'r offeryn hwn ac mae copïau o'r Cynllun ynghyd â'r planiau sy'n mynd gydag ef wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac yn swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN.

[(1)] 1980 p.66. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1 , ac adran 162 o Ddeddf

Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Cychwyn

4. Daw'r Cynllun yn weithredol ar y dyddiad y caiff hysbysiad ei fod wedi ei gadarnhau ei gyhoeddi gyntaf yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Priffyrdd 1980.

FRANCES DUFFY
Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

15 Mawrth 2012